**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD**

**Dyddiad: 22 Mehefin 2000**

**Lleoliad:**

**Teitl: Cronfa Llwybr i Ffyniant– Set 2**

**Diben**

1. Mae'r papur hwn yn nodi argymhellion ar gyfer ail set o raglenni i'w hariannu

   o Gronfa Llwybr i Ffyniant. Gwahoddir Aelodau i roi eu sylwadau ar 22 Mehefin.

   **Crynodeb**

2. Mae'r papur yn disgrifio nifer o raglenni, ynghyd â'u costau posibl.

   Mae hefyd yn nodi y cynigir cyfres bellach o raglenni, i gynorthwyo'r diwydiant cydrannau ceir, maes o law.

   **Cefndir**

3. Ystyriodd y Pwyllgor set cychwynnol o raglenni ar 15 Mawrth ac mae'r

   rhaglenni y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor yn cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd. O ganlyniad i'r dyraniadau hyn, mae'r Gronfa yn awr yn cynnwys:

   £'000

| | 2000-01 | 2001-02 | 2002-03 |
|---|---|---|---|
| Cronfa Llwybr i Ffyniant | 2,807 | 4,368 | 3,218 |

   **Argymhellion**

4. Mae Atodiad A yn rhestru'r rhaglenni a argymhellir ar hyn o bryd, gan gynnwys

manylion cydymffurfio, ac yn nodi eu costau disgwyliedig. Ceir disgrifiadau byrrach o'r rhaglenni yn Atodiadau B-F. Amcangyfrifir y bydd costau'r rhaglenni hyn i'w hariannu o Gronfa Llwybr i Ffyniant

yn £1.39 miliwn yn 2000-01. Hefyd, bydd pob rhaglen yn gymwys i gael ei chyd-ariannu gan Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd.

5. Roedd rhai o’r rhaglenni hyn a ystyriodd y Pwyllgor ar 12 Ebrill yn rhan o’r papur

a gynigiai Gymhorthion newydd gan y Wladwriaeth.

6. Rhagwelir y bydd argymhellion sy’n cael eu paratoi gan aelodau Fforwm Ceir

Cymru, ynglyn â diwydiant cydrannau ceir, hefyd yn cael eu cefnogi gan Gronfa Llwybr i Ffyniant. Y tyb presennol a ddefnyddir wrth drafod y mater yw y gall fod yn £1 miliwn yn 2000-01.

**Casgliad**

7 Gwahoddir y Pwyllgor i nodi’r casgliadau hyn.